Dim ond gyda chymorth a chefnogaeth pawb sy'n gweithio ac yn byw yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y gallwn reoli nifer yr achosion o'r coronafeirws. Gyda'n gilydd gallwn leihau'r gyfradd trosglwyddo a diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos i fonitro amodau ledled Cymru. Rwy'n gobeithio na fydd angen y mesurau rwyf wedi eu hamlinellu uchod mewn ardaloedd eraill.

Eitem 4.3

SL(5)612 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau:

- (a) Yn cyfyngu ar gynullïadau o dan do o aelodau o aelwyd estynedig i 6 pherson heb gynnwys unrhyw blant o dan 11 oed (nid yw hyn yn effeithio ar y rheol gyffredinol na chaiff unrhyw berson ymgynnull o dan do gydag unrhyw un o'r tu allan i'w aelwyd);
- (b) Yn ei gwneud yn ofynnol i orchuddion wyneb gael eu gwisgo yn ardaloedd cyhoeddus o dan do "mangreoedd agored" (sef mangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd ac y mae'n ofynnol iddynt gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, a'i ledaenu, o dan reoliad 12 o'r prif Reoliadau) a chanolfannau trafndiaeth, oni bai bod esemptiad yn gymwys neu fod gan y person esgus rhesymol dros beidio â gwisgo'r gorchudd wyneb;
- (c) Yn egluro nad yw, o dan baragraff 4 o Atodlen 4A i'r prif Rheoliadau, yn esgus rhesymol i fynd i ardal diogelu iechyd leol i weithio, nac i ddarparu gwasanaethau gwirfoddol na gwasanaethau elusennol, os yw'n rhesymol ymarferol i wneud y gwaith neu i ddarparu'r gwasanaeth y tu allan i'r ardal;
- (d) Yn gwneud mân ddiwygiadau gan gynnwys diwygiadau sy'n ganlyniadol ar y newidiadau a grybwyllir uchod ac ar wneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020.

Gweithdrefn

Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol"

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu



Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ac ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae asesiad effaith integredig yn cael ei ddatblygu a chaiff ei gyhoeddi cyn bo hir, yn ôl y Memorandwm Esboniadol.

Yn y Memorandwm Esboniadol ar y Rheoliadau hyn mae Llywodraeth Cymru yn egluro nad oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau oherwydd bygythiad difrifol ac uniongyrchol y coronafeirws a'r angen am ymateb brys o ran iechyd y cyhoedd. Ar ben hynny, mae'r Prif Weinidog yn egluro:

"Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Hysbysais Aelodau'r Senedd, mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd yn gynharach heddiw, am y bwriad o osod y cyfyngiadau hyn yn y Rheoliadau. Hefyd cynhaliais gynhadledd i'r wasg ac fe gafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang yn y cyfryngau."

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn "oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn tynhau cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws (COVID-19). O'r herwydd, mae'r Rheoliadau hyn yn dod o fewn tiriogaeth ystyriaethau hawliau dynol ar gyfer hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop. Rhaid ystyried y rhain yn erbyn y prawf 'cymesuredd' angenrheidiol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ystyriaeth a'r esboniad pellach a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol. Dywed Llywodraeth Cymru:

"Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd bod y Rheoliadau yn gymesur."

[...]



Mae'r Rheoliadau, yn benodol, yn cyfyngu ar nifer y bobl all ymgynnull o dan do ac yn ei gwneud yn ofynnol gwisgo gorchuddion wyneb o fewn mangreoedd agored, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau. Bydd y cyfyngiadau a'r gofynion hyn yn cyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (parchu bywyd teuluol a phreifat); Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd); Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 14 (gwahardd camwahaniaethu). I'r graddau y mae'r gofynion sy'n cael eu gosod gan y Rheoliadau yn cyffwrdd neu'n ymyrryd a'r hawliau hynny, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyfiawnhad i'r ymyrraeth honno gan mai'r nod dilyn yw ymateb i fygythiad yr achosion cynyddol o'r coronafeirws ar draws Cymru i iechyd y cyhoedd, a bod yr ymyrraeth yn gymesur a'r nod hwnnw. Mae'r cyfyngiad ar ymgynnull dan do yn ymateb i fygythiadau i iechyd, a'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb mewn mangreoedd agored yn ddarostyngedig i nifer o esemptiadau ac eithriadau, gan gynnwys yn sgîl salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu fel arall o ganlyniad i anawsterau cyfathrebu."

Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

16 Medi 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 84

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 985 (Cy. 222)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9)
2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

- (a) yn cyfyngu ar gynulladau o dan do o aelodau o aelwyd estynedig i 6 pherson heb gynnwys unrhyw blant o dan 11 oed (nid yw hyn yn effeithio ar y rheol gyffredinol na chaiff unrhyw berson ymgynnull o dan do gydag unrhyw un o'r tu allan i'w aelwyd);

- (b) yn ei gwneud yn ofynnol i orchuddion wyneb gael eu gwisgo yn ardaloedd cyhoeddus o dan do “mangreoedd agored” (sef mangreoedd sy’n agored i’r cyhoedd ac y mae’n ofynnol iddynt gymryd pob mesur rhesymol i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws, a’i ledaenu, o dan reoliad 12 o’r prif Reoliadau) a chanolfannau trafndiaeth, oni bai bod esemptiad yn gymwys neu fod gan y person esgus rhesymol dros beidio â gwisgo’r gorchudd wyneb;
- (c) yn egluro nad yw, o dan baragraff 4 o Atodlen 4A i’r prif Rheoliadau, yn esgus rhesymol i fynd i ardal diogelu iechyd leol i weithio, nac i ddarparu gwasanaethau gwirfoddol na gwasanaethau elusennol, os yw’n rhesymol ymarferol i wneud y gwaith neu i ddarparu’r gwasanaeth y tu allan i’r ardal;
- (d) yn gwneud mân ddiwygiadau gan gynnwys diwygiadau sy’n ganlyniadol ar y newidiadau a grybwyllir uchod ac ar wneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 985 (Cy. 222)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9)
2020**

Gwnaed am 4.35 p.m. ar 11 Medi 2020

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru am 7.30 p.m. ar 11 Medi 2020

Yn dod i rym 14 Medi 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 a deuant i rym ar 14 Medi 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2A, yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Pan fo aelwydydd yn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig—

- (a) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn (ac eithrio yn y rheoliad hwn a rheoliad 14(1)(b)(i)) at “aelwyd” i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys yr aelwydydd sydd wedi cytuno felly, a
- (b) mae rheoliad 14 yn gymwys i gynulliad sy'n cynnwys personau o fwy nag un aelwyd mewn aelwyd estynedig fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (1)—

“(1) Ni chaiff cynulliad mewn mangre o dan do, heb esgus rhesymol, gynnwys—

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/820 (Cy. 180)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/843 (Cy. 186)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/867 (Cy. 189)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/884 (Cy. 195)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/912 (Cy. 204)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 (O.S. 2020/961 (Cy. 215)).

- (a) mwy na 6 aelod o aelwyd estynedig, heb gynnwys unrhyw blant o dan 11 oed;
- (b) person nad yw'n aelod o'r aelwyd estynedig ar wahân i—
 - (i) gofalwr aelod o'r aelwyd estynedig, neu
 - (ii) person y mae aelod o'r aelwyd estynedig yn darparu gofal iddo.””

(3) Hepgorer rheoliad 11.

(4) Ar ôl rheoliad 12A mewnosoder—

“Gofyniad i wisgo gorchudd wyneb mewn manau cyhoeddus penodol o dan do

12B.—(1) Rhaid i berson (“P”) wisgo gorchudd wyneb mewn mangreoedd perthnasol o dan do.

(2) Ond nid yw hyn yn ofynnol—

- (a) pan fo esemptiad yn gymwys o dan baragraff (3);
- (b) pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb, ac o ran hynny gweler paragraff (4).

(3) Mae esemptiad i'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn gymwys—

- (a) pan fo P yn blentyn o dan 11 oed;
- (b) pan fo P mewn mangre lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y darperir bwyd neu ddiod fel arall, i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre honno.

(4) Mae'r amgylchiadau pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb yn cynnwys—

- (a) pan na fo P yn gallu rhoi gorchudd am ei wyneb, neu wisgo neu dynnu gorchudd wyneb, oherwydd salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu anabledd (o fewn yr ystyr a roddir i “disability” yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010⁽¹⁾);
- (b) pan fo P yn ymgymryd â gweithgaredd ac y gellir ystyried yn rhesymol bod gwisgo gorchudd wyneb yn ystod y gweithgaredd hwnnw yn peri risg i iechyd P;
- (c) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb i gyfathrebu â pherson arall sy'n

(1) 2010 p. 15.

cael anhawster i gyfathrebu (mewn perthynas â lleferydd, iaith neu fel arall);

- (d) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb er mwyn osgoi niwed neu anaf, neu'r risg o niwed neu anaf, i P ei hunan neu i eraill;
- (e) pan fo P yn y fangre i osgoi anaf, neu i ddianc rhag risg o niwed, ac nad oes gan P orchudd wyneb;
- (f) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb i—
 - (i) cymryd meddyginiaeth;
 - (ii) bwyta neu yfed, pan fo'n rhesymol angenrheidiol;
- (g) pan ofynnir i P dynnu'r gorchudd wyneb gan swyddog gorfodaeth.

(5) At ddibenion paragraff (3)(b), pan fo bwyd neu ddiod yn cael ei werthu neu ei gwerthu neu'n cael ei ddarparu neu ei darparu fel arall i'w fwyta neu i'w hyfed mewn rhan o fangre, nid yw'r esemptiad ond yn gymwys pan fo P yn y rhan honno.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "mangreodd perthnasol o dan do" yw ardaloedd cyhoeddus o dan do mewn—

- (a) mangreodd agored;
- (b) gorsafoedd bysiau;
- (c) gorsafoedd trenau;
- (d) meysydd awyr;
- (e) porthladdoedd môr."

(5) Yn rheoliad 17—

- (a) ym mharagraff (1)(c)—
 - (i) ar ôl paragraff (i) mewnosoder "neu";
 - (ii) hepgorer paragraffau (iii) a (iv);
- (b) ym mharagraff (1)(d)—
 - (i) ar ôl paragraff (i) mewnosoder "neu";
 - (ii) hepgorer paragraffau (iii) a (iv);
- (c) ym mharagraff (2), hepgorer ", 11(4)";
- (d) hepgorer paragraff (3).

(6) Yn rheoliad 18—

- (a) hepgorer paragraff (3);
- (b) ym mharagraff (3C), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle "paragraff 6(1) o Atodlen 4A" rhodder "rheoliad 12B(1)";
- (c) ym mharagraff (6A), yn lle "baragraff 6(1) o Atodlen 4A" rhodder "neu reoliad 12B(1)".

(7) Yn rheoliad 20, ym mharagraff (1)—

- (a) yn is-baragraff (a), hepgorer “, 11(4) neu 12A(1),”;
 - (b) yn is-baragraff (b)—
 - (i) ar ôl “rheoliad” mewnosoder “12A(1), 12B(1),”;
 - (ii) yn lle “, 4(1) neu 6(1)” rhodder “neu 4(1)”.
- (8) Yn rheoliad 21—
- (a) ym mharagraff (10), ar ôl “hyn” mewnosoder “neu Reoliadau a grybwyllir ym mharagraff (11)”;
 - (b) ym mharagraff (11), ar ôl “2020” mewnosoder “a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020(1)”;
 - (c) hepgorer paragraff (15).
- (9) Yn Atodlen 4A—
- (a) ym mharagraff 4(2)(e) ar ôl “elusennol” mewnosoder “pan na fo’n rhesymol ymarferol ymgymryd â’r gwaith neu ddarparu’r gwasanaeth o fan y tu allan i’r ardal”;
 - (b) hepgorer paragraff 6.

Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol

3. Mae rheoliadau 20 ac 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai’r diwygiadau hynny wedi eu gwneud.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Am 4.35 p.m. ar 11 Medi 2020

(1) O.S. 2020/977 (Cy. 218).

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

11 Medi 2020

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir rhoi mesurau iechyd y cyhoedd ar waith er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed drwy'r Rheoliadau gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau, yn benodol, yn cyfyngu ar nifer y bobl all ymgynnull o dan do ac yn ei gwneud yn ofynnol gwisgo gorchuddion wyneb o fewn mangreoedd agored, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau. Bydd y cyfyngiadau a'r gofynion hyn yn cyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (parchu bywyd teuluol a phreifat); Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd); Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 14 (gwahardd camwahaniaethu). I'r graddau y mae'r gofynion sy'n cael eu gosod gan y Rheoliadau yn cyffwrdd neu'n ymyrryd a'r hawliau

hynny, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyfiawnhad i'r ymyrraeth honno gan mai'r nod dilys yw ymateb i fygythiad yr achosion cynyddol o'r coronafeirws ar draws Cymru i iechyd y cyhoedd, a bod yr ymyrraeth yn gymesur a'r nod hwnnw. Mae'r cyfyngiad ar ymgynnull dan do yn ymateb i fygythiadau i iechyd, a'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb mewn mangreoedd agored yn ddarostyngedig i nifer o esemptiadau ac eithriadau, gan gynnwys mewn perthynas â phlant o dan 11 oed, anallu i wisgo gorchuddion yn sgil salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu fel arall o ganlyniad i anawsterau cyfathrebu.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn:

- cyfyngu ar nifer y bobl all gyfarfod yn gymdeithasol o dan do. Bydd hyn yn cael ei gyfyngu i ddim mwy na 6 o bobl o aelwyd estynedig (ac eithrio unrhyw blentyn o dan 11 oed). Mae'r cyfyngiad hwn yn gymwys i bob lleoliad dan do, gan gynnwys cartrefi, bwytai a thafarndai.
- ei gwneud yn ofynnol i bobl wisgo gorchuddion wyneb mewn siopau neu mewn mannau cyhoeddus penodol eraill sydd o dan do ac mewn hybiau trafndiaeth. Mae esemptiad i blant o dan 11, ac i unrhyw un sydd mewn mangre sy'n gwerthu bwyd a diod diod i'w fwyta neu ei yfed yno. (Lle bo rhan yn unig o'r fangre ar gael i fwyta neu yfed, bydd yn parhau i fod yn ofynnol gwisgo gorchudd wyneb mewn rhannau eraill o'r fangre). Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu nad oes rhaid i berson wisgo gorchudd pan fo gan y person esgus rhesymol (c mae esiampiau wedi'u rhestru). Mae hyn yn ychwanegol at y gofyniad cyfreithiol sydd eisoes yn gymwys (ar draws Cymru) i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Yn gynharach yr wythnos hon, fe gafodd y prif Reoliadau eu diwygio i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas â Bwrdeistref Sirol Caerffili, a ddynodwyd fel 'ardal diogelu iechyd leol'. Roedd hyn yn cynnwys y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb. Gan fod y gofyniad hwn yn cael ei ehangu ar draws Cymru gyfan, mae'r prif Reoliadau yn cael eu diwygio gan y Rheoliadau hyn i ddileu'r gofyniad penodol am orchuddion wyneb o ddarpariaethau ardal diogelu iechyd leol.

- gwneud diwygiad pellach i'r darpariaethau ynghylch ardal diogelu iechyd leol mewn perthynas â'r gofyniad i weithio o'r cartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny. O 8 Medi ymlaen, roedd hyn yn gymwys i bobl sy'n byw yn yr ardal diogelu iechyd leol, ond nid oedd yn gymwys i bobl sy'n byw y tu allan ond yn gweithio yn yr ardal honno. O 14 Medi ymlaen, ni fydd gan bobl esgus resymol i fynd i mewn i'r ardal i weithio os yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud weithio y tu allan i'r ardal.

Mae newidiadau pellach hefyd i'r prif Reoliadau yn sgil Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020. Mae dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi'u dileu o'r prif Reoliadau ac wedi'u ailosod yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020.

Daw'r Rheoliadau i rym ddechrau 14 Medi 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Aseiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Hysbysais Aelodau'r Senedd, mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd yn gynharach heddiw, am y bwriad o osod y cyfyngiadau hyn yn y Rheoliadau. Hefyd cynhaliais gynhadledd i'r wasg ac fe gafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang yn y cyfryngau.

6. Aseiad effaith rheoleiddiol ac aseuadau eraill

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fgythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i lunio a bydd yn cael ei gyhoeddi.



Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Medi 2020

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddechrau 14 Medi 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 11 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ar 22 Medi 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Adolygu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Rhif 2) (Cymru) 2020

DYDDIAD 11 Medi 2020

GAN Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar symud, cynulliadau, a'r ffordd y caiff busnesau eu gweithredu, gan gynnwys cau busnesau. Maent yn eu gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd ar agor i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r perygl i bobl ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Maent wedi eu cynllunio i ddiogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y gofynion a'r cyfyngiadau, ac ystyried pa mor gymesur ydynt bob 21 o ddiwrnodau.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae plant a phobl ifanc ym mhob ardal o Gymru wedi dychwelyd i'r ysgol am y tro cyntaf ers i'r pandemig ddechrau. Yn ôl yr wybodaeth wyddonol glir a dderbyniwyd gennyf, mae'r ffaith eu bod wedi gallu dychwelyd, ac mae hyn newyddion i'w groesawu, yn golygu nad yw'n bosibl llacio'r cyfyngiadau ymhellach, i unrhyw raddau sylweddol, ar hyn o bryd.

Ynghyd â hyn, yn ôl yr wybodaeth wyddonol a chyngor ar iechyd y cyhoedd, rydym yn gweld cynnydd sydyn yn nifer yr achosion ar draws y DU, gan gynnwys cynnydd yn nifer yr achosion yng Nghymru.

Mae *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd fis diwethaf yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i fonitro achosion a rheoli brigiadau lleol o'r coronafeirws, gan wneud hynny yn seiliedig ar yr egwyddorion pwyll, cymesureddeidd a sybsidaredd.

Ein prif flaenoriaeth yw atal lledaeniad y coronafeirws, ond mae'n rhaid i unrhyw ymyriadau a wnawn fod yn gymesur, gan ddefnyddio deallusrwydd lleol ac arbenigedd.

Yn dilyn y cynnydd sylweddol a chyflym mewn achosion yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gwnaethom weithio gyda'r awdurdod lleol a phartneriaid eraill i gyflwyno cyfyngiadau lleol ar 8 Medi.

Rydym yn monitro'r cyfraddau yn agos mewn sawl ardal arall yng Nghymru a thrwy weithio gyda phartneriaid, byddwn yn ystyried cyflwyno mesurau priodol pellach pe bai angen, yn unol â *Chynllun Rheoli'r Coronafeirws*.

Ar y cyfan, mae cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion ar draws Cymru, a hynny mewn telerau absoliwt ac fel cyfran o nifer y bobl sy'n cael eu profi. Fodd bynnag, mae'r darlun ehangach yn fwy cymhleth oherwydd mae rhai rhannau o'r wlad wedi dod yn fannau problemus o ran y feirws, tra bo eraill ond wedi gweld un neu ddau achos ychwanegol.

Yn y manau hynny lle y mae'r cynnydd mewn achosion i'w weld, mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n glir bod hyn yn deillio o ryngweithio cymdeithasol o fewn aelwydydd a rhyngddynt, a grwpiau cymdeithasol ddim yn cydymffurfio â'r gofynion cadw pellter a'r rheoliadau a'r canllawiau presennol.

O ystyried yr holl faterion hyn gyda'i gilydd felly, mae'r Gweinidogion wedi penderfynu cymryd sawl cam ar unwaith i helpu i reoli lledaeniad y feirws:

O ddydd Llun 14 Medi ymlaen, bydd yn ofynnol i bob preswlydd yng Nghymru dros 11 oed wisgo gorchuddion wyneb mewn manau cyhoeddus dan do, megis siopau. Bydd esemptiadau ac eithriadau a fydd yn cael eu nodi mewn canllawiau.

Am y tro ni fydd angen gwisgo gorchudd wyneb mewn tafarndai a bwytai. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal adolygiad cyflym o'r dystiolaeth i benderfynu a ddylid cynnwys y sector lletygarwch yn hynny o beth.

O ddydd Llun 14 Medi ymlaen, byddwn yn cyfyngu ar y niferoedd sy'n gallu cwrdd dan do ar yr un pryd i uchafswm o chwe pherson. Rhaid i'r bobl hynny fod yn perthyn i'r un aelwyd gyfyngol - neu swigen - y gellir ei chreu o bedwar aelwyd yn ymuno â'i gilydd. Ni fydd plant dan 11 oed yn cael eu cynnwys yn y rheol hon.

Bydd y terfyn hwn yn gymwys i leoliadau dan do, gan gynnwys tafarndai a bwytai. Dylai pobl fynd i dafarndai neu fwytai gydag aelodau eu haelwyd eu hunain neu eu haelwyd estynedig.

Bydd eithriadau ac esemptiadau, gan gynnwys i aelwydydd sengl sydd â mwy na chwe aelod. Nid oes newidiadau hyd yn hyn i'r rheolau ar gyfer cwrdd yn yr awyr agored ond mae'n bwysig bod pawb yn cydymffurfio â'r gofynion cadw pellter bob amser.

Ni fydd hyn yn berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili tra bo'r cyfyngiadau lleol yn eu lle.

Byddwn yn darparu pwerau newydd i awdurdodau lleol allu cau mangreoedd ar sail iechyd y cyhoedd o ddydd Llun 14 Medi ymlaen. Bydd hyn yn helpu i ymyrryd yn gyflym pan fo brigiad o achosion yn dod i'r amlwg ac yn galluogi awdurdodau lleol i gau mynediad i dir neu fangre unigol, a rhoi terfyn ar gynulliadau neu ddiwyddiadau lleol.

Hoffwn atgoffa'r rheini sy'n gyfrifol am fangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd y gallant gael eu cau eisoes os na chymerir mesurau rhesymol i leihau'r perygl i bobl ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Disgwyliaf i awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau sydd eisoes ganddynt a'r pwerau newydd hyn yn llawn lle y bo angen.

Mae risg trosglwyddo'r coronafeirws yn uwch dan do a dyna pam mae'n bwysig bod pawb yn dilyn y rheolau a'r canllawiau i ddiogelu eu hunain a phobl sy'n annwyl iddynt i Ddiogelu Cymru.

Fel rhan o'r broses ffurfiol 21 o ddiwrnodau i adolygu'r cyfyngiadau presennol, byddwn yn gwneud newid bach iawn i'r cyfyngiadau - bydd canolfannau sglefrïo parhaol yn gallu ailagor o 3 Hydref ymlaen, yn amodol ar y sefyllfa bryd hynny.

Mae datblygiadau dros yr wythnos ddiwethaf wedi darparu rhagor o dystiolaeth nad yw'r feirws wedi diflannu ac rwyf wedi cymryd camau cynnar i gyfyngu ar ledaeniad y feirws. Mae gan bob un yn awr ran i'w chwarae os ydym am osgoi cyfyngiadau llymach pellach.

Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn parhau i wneud ein rhan ac yn Diogelu Cymru.

SL(5)611 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol ledled Cymru mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys pwerau i awdurdodau lleol, drwy gyhoeddi cyfarwyddiadau i bobl berthnasol, wneud y canlynol:

- cau mangre unigol, neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â defnyddio'r fangre, mynediad ati, neu nifer y bobl ynddi;
- gwahardd digwyddiadau penodol (neu fathau o ddigwyddiad) rhag cael eu cynnal neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â chynnal y digwyddiad, mynediad ato, neu nifer y bobl sy'n ei fynychu; a
- chyfyngu mynediad at fannau cyhoeddus awyr agored (neu fathau o fannau cyhoeddus awyr agored), neu eu cau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn parhau â dyletswydd a osodwyd eisoes ar awdurdodau lleol, awdurdod Parc Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau llwybrau cyhoeddus a thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru lle gallai pobl ymgynnull, gan beri risg uchel o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.



Un o'r pwerau galluogi a nodwyd yn y rhaglith i'r Rheoliadau hyn yw adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (Deddf 1984). Yn ddarostyngedig i adran 45R o Ddeddf 1984, ni chaniateir gwneud offeryn sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 45C o Ddeddf 1984 oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i osod gerbron y Senedd, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau iddynt gael eu gwneud o dan adran 45R o Ddeddf 1984. Yn rhinwedd adran 45R(2) o Ddeddf 1984, gellir gwneud offeryn heb i drafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel sy'n ofynnol gan adran 45C(4) o Ddeddf 1984 os yw'r offeryn yn cynnwys datganiad bod y person sy'n ei wneud o'r farn, oherwydd bod brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y gorchymyn heb osod a chymeradwyo drafft yn y ffordd hon. Er bod y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cynnwys datganiad o'r fath, nid yw'r datganiad wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau fel sy'n ofynnol gan adran 45R(2) o Ddeddf 1984.

Mae'r offeryn yn honni ei fod yn cael ei wneud gan ddibynnu'n rhannol ar ddarpariaeth (adran 45R(2) o Ddeddf 1984) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad gael ei gynnwys yn yr offeryn ac felly na chydymffurfiwyd â'r gofynion statudol o gynnwys datganiad yn yr offeryn.

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Yn rheoliad 2(g), mae cyfeiriad at reoliad 7(1), a ddylai gynnwys y diffiniad o "man cyhoeddus". Mae hyn yn anghywir ac yn hytrach dylai gyfeirio at reoliad 7(2). Mae'r cyfeiriad cywir wedi'i gynnwys yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau hyn.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Yn rheoliad 16(9), mae cyfeiriad at baragraff (9), sy'n cyfeirio at swyddog gorfodi fel bod â sail resymol dros amau bod person yn torri rheoliad 14(4), neu ar fin ei dorri. Mae hyn yn anghywir ac yn hytrach dylai gyfeirio at baragraff (8). Mae'r cyfeiriad cywir wedi'i gynnwys yn y fersiwn Gymraeg.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae Rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch cyfarwyddydau o dan Ran 2. Mae yna nifer o ddarpariaethau yr ymddengys eu bod yn elwa o esboniad pellach a fyddai'n cael eu nodi mewn canllawiau o'r fath, er enghraifft arwydd o beth yw "seilwaith allweddol" at ddibenion rheoliad 5(3), "nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol" at ddibenion rheoliad 5(5) neu "esgus rhesymol" dros fynd yn groes i gyfarwyddyd.



Adeg ysgrifennu hyn, mae adran "Gorfodaeth a dirwyon" rheoliadau y Coronafeirws: tudalen cwestiynau cyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y drefn o orfodaeth a dirwyon o dan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafirws) (Rhif 2) (Cymru) Rheoliadau 2020, ond nid y Rheoliadau hyn. Mae'r dudalen yn nodi iddi gael ei diweddaru ddiwethaf ar 14 Medi 2020.

Nid yw'n ymddangos bod y canllawiau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, neu o leiaf nad yw'n hawdd eu hadnabod.

Credwn y byddai sicrhau bod y canllawiau ar gael, neu'n fwy hygyrch, o gymorth i awdurdodau lleol ac aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno deall effaith y Rheoliadau hyn.

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i roi hysbysiad ymlaen llaw o gyfarwyddyd mangre, cyfarwyddyd digwyddiad neu gyfarwyddyd man cyhoeddus. Rhaid rhoi hysbysiad ymlaen llaw:

- mewn perthynas â chyfarwyddyd mangre, i berson sy'n cynnal busnes o'r fangre ac, os yw'n wahanol, unrhyw berson sy'n berchen ar y fangre neu'n ei meddiannu;
- mewn perthynas â chyfarwyddyd digwyddiad, i berson sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad ac, os yw'n wahanol, unrhyw berson sy'n berchen ar y fangre neu'n meddiannu'r fangre lle bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal; ac
- mewn perthynas â chyfarwyddyd man cyhoeddus, i bersonau sy'n cynnal busnes o fangre yn y man cyhoeddus a sicrhau ei fod yn cael ei ddwyn at sylw unrhyw berson sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, yn ei meddiannu neu'n gyfrifol amdani.

Mae Rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i'r canlynol:

- yn achos cyfarwyddyd mangre, person sy'n cynnal busnes o'r fangre ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre neu'n ei meddiannu, neu fel arall yn gyfrifol amdani;
- yn achos cyfarwyddyd digwyddiad, person sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre, yn meddiannu'r fangre, neu fel arall yn gyfrifol amdani lle bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal neu y cynigir y bydd yn cael ei gynnal; ac
- yn achos cyfarwyddyd man cyhoeddus, person sy'n cynnal busnes o fangre yn y man cyhoeddus a phob person sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, yn ei meddiannu neu fel arall yn gyfrifol amdani.



Mae Rheoliad 12 yn darparu i berson â buddiant wneud apêl i'r Llys Ynadon yn erbyn cyfarwyddyd neu gyflwyno achos am y cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru. Y diffiniad o "person â buddiant" yw:

- yn achos cyfarwyddyd mangre, person sy'n cynnal busnes o'r fangre ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre neu'n ei meddiannu;
- yn achos cyfarwyddyd digwyddiad, person sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad ac, os yw'n wahanol, person sy'n berchen ar y fangre lle mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal neu y cynigir y bydd yn cael ei gynnal, neu'n meddiannu'r fangre; ac
- yn achos cyfarwyddyd man cyhoeddus, person sy'n cynnal busnes o fangre yn y man cyhoeddus a pherson sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, yn ei meddiannu neu'n gyfrifol amdani.

Defnyddir yr ymadrodd "fel arall yn gyfrifol am y fangre" mewn rhai rheoliadau sy'n ymwneud â gwneud cyfarwyddiadau, ond nid ym mhob un. Mae'n ymddangos bod defnyddio'r ymadrodd hwnnw mewn rhai rheoliadau, ond nid ym mhob un, yn awgrymu bod gwahaniaeth rhwng unigolion sy'n berchen ar fangre ac yn ei meddiannu, a'r rheini sy'n gyfrifol am fangre. Os yw hynny'n wir, bydd person sy'n gyfrifol am fangre, ond nad yw'n berchen ar y fangre honno nac yn ei meddiannu:

- yn cael hysbysiad ymlaen llaw mewn perthynas â chyfarwyddyd man cyhoeddus yn unig;
- yn cael cyfarwyddyd mangre, cyfarwyddyd digwyddiad neu gyfarwyddyd man cyhoeddus; ac
- yn cael gwneud apel neu gyflwyno achos mewn perthynas â chyfarwyddyd man cyhoeddus yn unig.

Mae'n ymddangos bod hyn yn awgrymu gwahaniaeth mewn triniaeth rhwng y mathau o hysbysiad mewn perthynas â phob un o'r materion hyn, ond nid yw'n glir pam mae angen gwahaniaethu fel hyn.

6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Yn y trydydd paragraff o Ran 4 o'r Memorandwm Esboniadol, mae cyfeiriad at "policy officer", sy'n ymddangos fel gwall argraffyddol a ddylai yn lle hynny ddarllen "police officer". Mae'r un gwall yn ymddangos yn y fersiwn Gymraeg, lle defnyddir "swyddog polisi".

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru



O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

17 Medi 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 105

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 984 (Cy. 221)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Swyddogaethau Awdurdodau
Lleol) (Cymru) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae 4 Rhan i'r Rheoliadau.

Mae **Rhan 1** yn cynnwys darpariaethau dehongli. Mae hefyd yn darparu y bod y Rheoliadau yn dod i ben ar 8 Ionawr 2021 oni bai y cânt eu dirymu cyn hynny.

Mae **Rhan 2** yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol yng Nghymru i reoli mangreoedd, digwyddiadau a mannau cyhoeddus yn eu hardaloedd er mwyn helpu i reoli'r coronafeirws o fewn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnwys cau mangreoedd a mannau cyhoeddus a dod â digwyddiadau i ben pan fo angen.

Mae **Rhan 3** yn parhau â dyletswydd sydd eisoes wedi ei gosod ar awdurdodau lleol, awdurdodau Parc Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau llwybrau troed cyhoeddus a thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru lle y gall pobl yn ymgynull arwain at risg uchel o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae **Rhan 4** yn darparu ar gyfer gorfodi'r cyfyngiadau neu'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 984 (Cy. 221)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Swyddogaethau Awdurdodau
Lleol) (Cymru) 2020**

Gwnaed am 4.03 p.m. ar 11 Medi 2020

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru am 7.30 p.m. ar 11 Medi 2020

Yn dod i rym 14 Medi 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cymhwyso a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Medi 2020.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) ystyr “coronafeirws” yw coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);
- (b) mae i “swyddog gorfodaeth” yr ystyr a roddir gan reoliad 15;
- (c) mae i “cyfarwyddyd digwyddiad” yr ystyr a roddir gan reoliad 6;
- (d) ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
- (e) mae “mangre” yn cynnwys unrhyw adeilad neu strwythur ac unrhyw dir;
- (f) mae i “cyfarwyddyd mangre” yr ystyr a roddir gan reoliad 5;
- (g) mae i “man cyhoeddus” yr ystyr a roddir gan reoliad 7(2);
- (h) mae i “cyfarwyddyd man cyhoeddus” yr ystyr a roddir gan reoliad 7.

Dod i ben

3.—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 8 Ionawr 2021.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

RHAN 2

Cyfarwyddydau awdurdodau lleol mewn perthynas â mangreoedd, digwyddiadau a manau cyhoeddus

PENNOD 1

Rhoi a dirymu cyfarwyddydau

Yr amodau iechyd y cyhoedd dros roi cyfarwyddydau

4.—(1) Os yw'n ystyried bod yr amodau iechyd y cyhoedd wedi eu bodloni, caiff awdurdod lleol roi—

- (a) cyfarwyddyd mangre o dan reoliad 5;
- (b) cyfarwyddyd digwyddiad o dan reoliad 6;
- (c) cyfarwyddyd man cyhoeddus o dan reoliad 7.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, yr “amodau iechyd y cyhoedd” yw—

- (a) bod y cyfarwyddyd yn ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd,
- (b) bod y cyfarwyddyd yn angenrheidiol at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint gan y coronafeirws yn ardal yr awdurdod lleol, ac
- (c) bod y gwaharddiadau, y gofynion neu'r cyfyngiadau a osodir gan y cyfarwyddyd yn ddull cymesur o gyflawni'r diben hwnnw.

Cyfarwyddydau mangreoedd

5.—(1) Caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd mangre mewn cysylltiad ag unrhyw fangre yn ei ardal.

(2) Caiff cyfarwyddyd mangre—

- (a) ei gwneud yn ofynnol i'r fangre gael ei chau;
- (b) gosod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â mynd i'r fangre neu ei gadael;
- (c) gosod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â defnyddio'r fangre;
- (d) gosod cyfyngiadau mewn perthynas â nifer y personau neu'r disgrifiad o'r personau a ganiateir yn y fangre.

<p><u>Schedule 5, para 8(1):</u> Powers for the Welsh Ministers by regulations to modify</p>	<p>This regulation-making power will allow the Welsh Ministers to use public intervention and private storage aid powers more effectively in exceptional circumstances. The nature of</p>	<p>Negative resolution procedure (unless clause 47(5) applies, in</p>

<p>retained direct EU legislation relating to public market intervention or aid for private storage for the purposes of altering the operation of provisions of such legislation, so far as they have effect in relation to Wales in connection with exceptional market conditions which are the subject of a declaration under paragraph 6 of Schedule 5 (declaration relating to exceptional market conditions).</p>	<p>exceptional market conditions is that they cannot be forecast, so we cannot know, for example, what products might require intervention and when. This clause allows the Welsh Ministers to tailor these types of aid to specific exceptional conditions.</p>	<p>which case affirmative resolution procedure)</p>
<p><u>Schedule 5, para 8(2):</u> Powers for the Welsh Ministers by regulations to modify retained direct EU legislation relating to public market intervention or aid for private storage for specified purposes.</p>	<p>The Common Agricultural Policy currently provides powers to remove surplus products from the market and stabilise market prices by purchasing, storing and reselling certain goods once prices have risen (Public Intervention) or by paying producers to store products for an agreed period to remove them from the market (Private Storage Aid). These domestic powers will enable the Welsh Ministers to alter the operation of these provisions -in ways not currently provided for in the existing legislation, to ensure these schemes are tailored to the domestic market. This could include, for example, changing the products which are eligible for specific aid schemes, to tailor them to domestic market conditions. There is also a specific power to phase out these schemes as the sector becomes self-reliant.</p>	<p>Negative resolution procedure (unless clause 47(5) applies, in which case affirmative resolution procedure)</p>
<p><u>Schedule 5, para 9(2):</u> Powers for the Welsh Ministers to make regulations requiring persons in or closely connected with an agri-food</p>	<p>This power is intended to improve transparency of data collection throughout the agri-food supply chain and to improve dissemination of this information. The power will enable the Welsh Ministers to make regulations to collect and</p>	<p>Affirmative resolution procedure</p>

<p>supply chain to provide information about matters connected with any of the person's activities connected with the supply chain so far as the activities are in Wales.</p>	<p>share data relevant to the agri-food supply chain. A requirement to provide information must serve certain purposes. Each purpose must be in, or covered by, the list in paragraph 11(4), including productivity, supply-chain fairness and transparency, animal health and welfare, and risk management.</p>	
<p><u>Schedule 5, para 14(1):</u> Powers for the Welsh Ministers to make provision for enforcement of a requirement imposed under paragraph 9(1) or (2) of Schedule 5 (agri-food supply chains: requirement to provide information)</p>	<p>A power to enforce requirements to provide data is needed to ensure powers to collect data are effective and to tailor penalties for failing to provide information so they are proportionate, and to allow for evolving technology and policy objectives.</p>	<p>Affirmative resolution procedure</p>
<p><u>Schedule 5, para 15(1):</u> Powers for the Welsh Ministers by regulations, in relation to products which fall within a specified sector and are marketed in Wales, to make provisions about the standards with which those products must conform</p>	<p>This power will enable the tailoring and modernisation of the existing marketing standards in retained EU law for agricultural products marketed in Wales. Marketing standards are technical in nature, and this power will enable their modification to keep in line with modernisation and to reflect the domestic agricultural market. In relation to products for which EU marketing standards do not exist (including new products which may be added to paragraph 16 using the power under paragraph 16(3)), the power in paragraph 15(1) gives the Welsh Ministers the flexibility to introduce new standards that will be tailored to suit the domestic agricultural sectors.</p> <p>Regulations made under paragraph 15(1) may also provide for the enforcement of marketing standards. In accordance with paragraph 15(3) provision may be made in respect of a range of enforcement matters including (amongst other</p>	<p>Affirmative resolution procedure</p>

	things) conferring powers of entry, imposing monetary penalties, creating offences punishable by a fine and appeals.	
<p><u>Schedule 5, para 16(3):</u> Powers for the Welsh Ministers to amend paragraphs 15 and 16 for or in connection with the purpose of—</p> <p>(a) adding or removing an agricultural product from paragraph 16(1);</p> <p>(b) altering the description of an agricultural product in paragraph 16(1).</p>	<p>The products listed in paragraph 16(1) largely reflect the products covered by current marketing standards law. This is subject to change as new sectors develop and become increasingly important. Therefore, a regulation-making power is needed to enable amendments to paragraphs 15 and 16 of Schedule 5 so that the list of products and their description may be updated over time, and any necessary amendments may be made to paragraph 15 consequential on those amendments to paragraph 16(1).</p>	Affirmative resolution procedure
<p><u>Schedule 5, para 17(1):</u> Powers for the Welsh Ministers to make provision about the classification, identification and presentation of bovine, pig and sheep carcasses by slaughterhouses in Wales</p>	<p>This power is needed to enable the updating of carcass classification provisions for slaughterhouses in Wales. It will allow carcass classification rules to be tailored to suit the domestic sector, to ensure that these rules do not place an excessive burden on farmers and others in the food supply chain and to continue to match modifications made to the rules at international level to ensure domestic farmers and slaughterhouses are not disadvantaged.</p> <p>Paragraph 17(2) sets out the enforcement matters that regulations under paragraph 17(1) may cover including, for example, the provision of information, conferring powers of entry, imposing penalties, creating offences and providing for appeals. This provides powers for an effective enforcement regime and will help to ensure a consistent and fair approach with existing penalties as and when new rules are introduced.</p>	Affirmative resolution procedure



Mick Antoni AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

11 Medi 2020

Annwyl Mick,

**Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar Femorandwm
Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru i'r Bil Masnach**

Diolch am ddarparu copi o adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil Masnach.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad i'w weld yn Atodiad A.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar femorandwm y Bil Masnach. Rwyf yn rhannu eich pryderon ynglŷn ag effaith cytundebau masnach newydd ar Gymru. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, dim ond i gytundebau masnach presennol sy'n parhau y mae cwmpas y Bil hwn yn berthnasol, yn hytrach na chytundebau masnach newydd.

Rwyf yn cydnabod eich pryderon ynglŷn â sicrhau consesiynau ar wyneb y Bil hwn, ond byddwn yn pwysleisio y byddai gwneud hynny yng nghyd-destun Llywodraeth y DU sydd â mwyafrif helaeth yn Nhŷ'r Cyffredin yn heriol iawn. Hoffwn nodi hefyd fod ymdrechion blaenorol i ddiwygio'r Bil yn sesiwn ddiwethaf Senedd y DU wedi arwain at wneud cytundebau rhynglywodraethol â Llywodraeth y DU ar y prif feysydd pryder. Cafodd y sefyllfa hon ei derbyn gan Senedd Cymru ar adeg pan oedd gan y Llywodraeth bryd hynny fwy o reswm dros gyfaddawdu.

Dyna pam fy mod wedi mabwysiadu dull o weithio gyda Gweinidogion y DU i sicrhau consesiynau drwy gytundebau rhynglywodraethol, techneg a ddefnyddir yn aml gan Weinidogion ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil wedi pasio drwy Dŷ'r Cyffredin. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Gorffennaf, a chynhelir yr ail darlleniad ar 8 Medi. Nod Llywodraeth y DU yw sicrhau Cydsyniad Brenhinol i'r Bil erbyn diwedd y cyfnod pontio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y camau nesaf yn Nhŷ'r Arglwyddi yn gyfle arall i ddadlau ac, o bosibl, i sicrhau gwelliannau deddfwriaethol. O ystyried hyn, ac er mwyn mynd i'r afael yn rhannol â nifer o'ch argymhellion, byddaf yn:

- Ysgrifennu at Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi yn gwneud cais i gyflwyno gwelliant i gymal 2 a fyddai'n atal Gweinidogion y DU rhag arfer y pwerau gwneud rheoliadau i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- Ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach yn gofyn i Weinidogion y DU ailddatgan ymrwymiad yn y blwch dogfennau yn Nhŷ'r Arglwyddi y bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn unrhyw benderfyniad ynghylch defnyddio pwerau cymal 2(7) i ymestyn y ddarpariaeth fachlud.

Gallaf eich sicrhau mai diogelu buddiannau Cymru mewn materion rhyngwladol yw un o fy mhrif flaenoriaethau. Byddaf yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar yr holl faterion polisi masnach drwy'r Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach, lle gallaf ddylanwadu ar y trafodaethau a rhoi llais i Gymru.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Atodiad A

Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i Fil Masnach y DU

Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p data-bbox="199 436 438 470">Argymhelliad 1</p> <p data-bbox="199 504 534 795">Dylai'r Gweinidog gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn gofyn am adolygiad o'r weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau a wneir o dan gymal 1.</p>	<p data-bbox="561 436 933 470">Penderfyniad – Gwrthod</p> <p data-bbox="561 504 1476 683">Yn y gorffennol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi codi gwrthwynebiad i'r ffaith fod rheoliadau a wneir o dan gymal 1 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a dyna oedd ei sail dros argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil Masnach 2017-19.</p> <p data-bbox="561 728 1476 1153">Wrth gyrraedd y safbwynt hwn mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y ffaith y byddai'r pŵer hwn yn cael ei arfer i wneud newidiadau technegol yn bennaf i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n bodoli eisoes, er mwyn rhoi'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA) ar waith pan fydd y DU yn aelod annibynnol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwelliannau i Reoliadau Contractau Caffael 2015 i sicrhau bod y rhestr o awdurdodau contractio llywodraeth ganolog y mae'r rheoliadau hynny'n berthnasol iddynt yn gyson â rhwymedigaethau'r DU o dan y GPA. Gallai hefyd gynnwys gwelliannau i ddeddfwriaeth ddomestig mewn ymateb i barti arall yn ymuno â'r GPA, neu aelod presennol yn gadael y GPA.</p> <p data-bbox="561 1198 1436 1422">Oherwydd bod hyd a lled y disgrisiwn y gall Gweinidogion Cymru neu Weinidogion y DU ei arfer yn gyfyngedig iawn yn ymarferol, a gan dderbyn bod Senedd y DU eisoes wedi cael cyfle i graffu ar aelodaeth y DU o'r GPA, cyrhaeddodd Llywodraeth Cymru safbwynt lle roedd yn fodlon bod y ddarpariaeth yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.</p> <p data-bbox="561 1456 1476 1668">Derbyniodd Senedd Cymru y safbwynt hwn wrth gytuno ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar 12 Mawrth 2019, ac wedyn ar 21 Mai 2019 yn sgil dau gynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol. Derbyniwyd mai siawns isel iawn yr oedd o sicrhau gwelliant gan Lywodraeth y DU i newid y weithdrefn arfaethedig o negyddol i gadarnhaol ar yr adeg honno.</p> <p data-bbox="561 1713 1484 1937">Mae Llywodraeth bresennol y DU mewn safle cryfach ar ôl ennill mwyafrif helaeth yn y Senedd, ac mae wedi ei gwneud yn glir nad oes bwriad ganddi i newid y weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau a wneir o dan gymal 1. Felly, mae'n eithriadol o annhebygol y byddai unrhyw sylwadau y byddem yn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU ar y mater hwn yn cael eu hystyried o ddifrif.</p> <p data-bbox="561 1971 997 2004">Goblygiadau ariannol – Dim.</p>

<p>Argymhelliad 2</p> <p>Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor i roi gwybod i ni am ganlyniad y sylwadau a gyflwynir i Lywodraeth y DU yn sgil Argymhelliad 1.</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>O ganlyniad i'r rhesymau a nodwyd yn Argymhelliad 1, nid ystyrir ei bod yn briodol i'r Gweinidog gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar y mater hwn.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>
<p>Argymhelliad 3</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 1 gael ei arfer pan fydd Gweinidogion yn ei ystyried yn 'angenrheidiol', yn hytrach nag yn 'briodol'.</p>	<p>Penderfyniad – Derbyn mewn Egwyddor</p> <p>Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor bod y dewis rhwng 'angenrheidiol' neu 'briodol' yn bwysig, a bod yn rhaid ei ystyried yn ofalus mewn perthynas â phob Bil penodol a'i amgylchiadau. Yn y sefyllfa benodol hon, rydym yn ymwybodol o derfyn amser y ddeddfwriaeth hon, hynny yw bod y Bil dim ond yn berthnasol i weithredu cytundebau rhyngwladol a oedd eisoes yn eu lle cyn i'r DU adael yr UE, a bod hyd a lled y pwerau eisoes yn gyfyngedig iawn yn ymarferol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'r term 'angenrheidiol' yn fwy dymunol yn y cyd-destun lle na ddylid gwneud newidiadau oni bai eu bod yn angenrheidiol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd llawn â rhwymedigaethau rhyngwladol. Fodd bynnag, oherwydd y byddai unrhyw welliant i'r Bil yn golygu bod yn rhaid defnyddio'r un safon ar gyfer y pwerau gwneud rheoliadau a roddir i Weinidogion y DU, mae'n dra annhebygol y byddai gwelliant o'r fath yn cael ei dderbyn – ac, eto, wrth ystyried Bil Masnach 2017-19, nid oedd Senedd Cymru wedi ystyried hwn yn fater a ddylai ei hatal rhag rhoi cydsyniad deddfwriaethol.</p> <p>Felly, nid ydym yn credu y byddai'n briodol i ni fynd ati i geisio gwelliant a fyddai'n cyfyngu ar y pwerau hyn, er na fyddem yn gwrthwynebu ymdrechion yn Nhŷ'r Arglwyddi i gyflwyno gwelliant o'r fath.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>
<p>Argymhelliad 4</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i gymal 2(6)(a) y Bil i sicrhau na ellir ei ddefnyddio gan Weinidogion y DU i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.</p>	<p>Penderfyniad – Derbyn</p> <p>Er ei bod yn dechnegol bosibl y gallai Llywodraeth y DU ddefnyddio cymal 2(6)(a) i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ymarferol, mae'n eithriadol o annhebygol y byddai hyn yn digwydd oherwydd mae pwerau cymal 2 yn gyfyngedig iawn o ran eu hyd a'u lled.</p> <p>I liniaru'r risg fod Gweinidogion y DU yn defnyddio cymal 2 yn y modd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i sicrhau ymrwymadau gan Lywodraeth y DU, er eu bod yn rhai rhynglywodraethol ac anneddfwriaethol nad ydynt yn rhwymo, na fydd pwerau cymal 2 yn cael eu defnyddio ym meysydd lle y</p>

	<p>mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. O ganlyniad i hynny, ar 23 Mehefin 2020, yng nghyfarfod Pwyllgor y Bil Masnach yn Nhŷ'r Cyffredin, roedd y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach wedi ailddatgan addewidion a wnaed gan ragflaenwyr yn ystod hynnt Bil Masnach 2017-19 na fyddai Llywodraeth y DU yn deddfu mewn meysydd datganoledig fel rheol heb gydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig perthnasol, a byth heb ymgynghoriad yn gyntaf. Yn ogystal â hynny, ac yn dilyn sylwadau gan y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol, gwnaeth y Gweinidog dros Bolisi Masnach ymrwymiad newydd y bydd ei adran yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ym mhob cam o'r trafodaethau masnach.</p> <p>Fodd bynnag, er bod Llywodraeth y DU wedi nodi o'r blaen nad yw'n bwriadu arfer y pwerau cymal 2 i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac wedi gwneud sylwadau yn y blwch dogfennau na fydd yn gwneud hynny fel rheol, ac nad ydym yn rhag-weld sefyllfa lle byddai angen gwneud hynny erioed, rydym yn cydnabod bod risg fach y gallai Gweinidogion y DU arfer y pwerau hyn. Rydym yn cytuno â Senedd Cymru nad yw'n dderbyniol i Weinidogion y DU ddefnyddio pwerau eilaidd i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol graidd sy'n sail i'r setliad datganoli.</p> <p>Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi yn gwneud cais i gyflwyno gwelliant i gymal 2 a fyddai'n atal Gweinidogion y DU rhag arfer y pwerau gwneud rheoliadau i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>
<p>Argymhelliad 5</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 2 gael ei arfer pan fydd Gweinidogion yn ei ystyried yn 'angenrheidiol', yn hytrach nag yn 'briodol'.</p>	<p>Penderfyniad – Derbyn mewn Egwyddor</p> <p>Gweler yr ymateb a ddarparwyd i Argymhelliad 3, sy'n mynd i'r afael ag Argymhelliad 5 hefyd.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim</p>
<p>Argymhelliad 6</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil i sicrhau bod gofyniad ar Lywodraeth y DU i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwelliannau i Fil 2017-19, ynghyd â Llywodraeth yr Alban, a fyddai wedi gorfodi Gweinidogion y DU i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru a'r Alban cyn gwneud rheoliadau o dan gymalau 1 a 2 a fyddai'n gwneud darpariaethau mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.</p>

<p>o dan gymalau 1(1) a 2(1).</p>	<p>Cafodd y gwelliannau hyn eu gwrthod ond cafwyd consesiynau gan Lywodraeth y DU, ar ffurf ymrwymadau anneddfwriaethol yn y blwch dogfennau, na fyddai fel rheol yn deddfu mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli heb ymgynghoriad. Mae'r ymrwymadau hyn wedi cael eu hailddatgan gan y Gweinidog dros Bolisi Masnach mewn perthynas â Bil 2019-21, fel yr amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 4.</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd safbwynt ar y Bil blaenorol lle roedd yn derbyn y byddai gofyniad ar Lywodraeth y DU i gael cydsyniad ar wyneb y Bil yn golygu y byddai gan y gweinyddiaethau datganoledig fetto, i bob pwrpas, ar gytundebau rhyngwladol a drafodir gan Lywodraeth y DU. Penderfynodd Llywodraeth Cymru fod sicrhau ymrwymadau anneddfwriaethol yn y blwch dogfennau, yn hytrach na phwysu am fetto, yn gyson â'i hamcanion a nodir yn ei dogfen polisi masnach gyhoeddedig, 'Y Polisi Masnach: Materion Cymru'. Yn ogystal â hynny, derbyniwyd mai'r cyfaddawd hwn oedd yr unig ffordd o symud y Bil Masnach yn ei flaen er mwyn sicrhau parhad i fusnesau a dinasyddion Cymru ar ddiwedd y cyfnod pontio. Yn flaenorol, roedd y Senedd yn fodlon rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar y sail hon.</p> <p>Mae'r Pwyllgor yn nodi yn yr adroddiad bod Biliau eraill y DU, fel Bil yr Amgylchedd, yn cynnwys pwerau cydredol plws, sy'n golygu bod yn rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i Weinidogion y DU wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod Bil yr Amgylchedd a'r Bil Pysgodfeydd yn cynnwys pwerau cydredol plws, ond yn yr achosion hyn mae pwnc craidd y Biliau'n amlwg yn un datganoledig. Mae'r Bil Masnach yn wahanol i'r ddau Fil hynny oherwydd dim ond rhannau cyfyngedig ohono sy'n gwneud darpariaethau mewn meysydd datganoledig. Mae Biliau eraill y DU sy'n ymwneud â chytundebau rhyngwladol y mae angen amdanynt o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE, fel Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a Swistir) 2019, wedi pasio drwy Senedd y DU lle mae ymrwymadau yn y blwch dogfennau yn cael eu derbyn fel dyfais ddilys, ond nid delfrydol, y gall Llywodraethu datganoledig ei defnyddio i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>
<p>Argymhelliad 7.</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil i sicrhau bod gofyniad ar Lywodraeth y DU i gael cydsyniad Senedd Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 2(7).</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi cyrraedd safbwynt lle roedd yn fodlon argymhell rhoi cydsyniad deddfwriaethol i gymal 2(7) ar sail ymrwymadau anneddfwriaethol a wnaed gan Lywodraeth y DU yn ystod hynt Bil Masnach 2017-19, a oedd yn cynnwys ymrwymiad yn y blwch dogfennau i ymgysylltu â gweinyddiaethau datganoledig cyn ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau cymal 2 o dan y</p>

	<p>Bil ynndo. Derbyniodd Senedd Cymru y safbwynt hwn, a rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar y sail hon.</p> <p>Fel yr amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 6, mae ymrwymadau yn y blwch dogfennau yn cael eu derbyn fel dyfais ddilys, ond nid delfrydol, y gall Llywodraethu datganoledig ei defnyddio i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif mewn perthynas â Biliau'r DU. Felly, yn yr achos hwn, byddai dibynnu ar ymrwymiad yn y blwch dogfennau yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer deddfwriaeth arall.</p> <p>Serch hynny, nodwyd bod yr ymrwymiad hwn wedi'i wneud ar 17 Gorffennaf 2018 ac nad yw wedi'i ailddatgan yn benodol gan y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach mewn perthynas ag ymestyn y cyfnod machlud. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU gan ofyn a fyddai Gweinidogion yn ailddatgan yr ymrwymiad hwn yn benodol yn y blwch dogfennau yn ystod camau Tŷ'r Arglwyddi.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>
<p>Argymhelliad 8</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio trafodaethau brys â Llywodraeth y DU ynghylch yr ymrwymadau a wnaed o ran gweithrediad yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, yn benodol o ran ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar argymhellion yr Awdurdod, a cheisio newidiadau i'r ymrwymadau y cytunwyd arnynt er mwyn iddynt adlewyrchu'n briodol statws Llywodraeth Cymru fel y Llywodraeth yng Nghymru, ac nid fel adran o Lywodraeth y DU.</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>Nid yw materion sy'n ymwneud â'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach o fewn cymhwysedd y Senedd, er bod hwn yn faes lle mae gan fusnesau a dinasyddion Cymru fuddiant clir. Mae Llywodraeth Cymru wedi argymhell cefnogi'r mesurau arfaethedig ar gyfer sefydlu corff annibynnol newydd, yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, i ymchwilio anghydfodau masnach ar y sail fod Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses ymchwilio, ond y bydd Llywodraeth y DU yn gweithredu ar ran y DU yn ei chyfanrwydd.</p> <p>Mae'n bwysig nodi y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar y DU i sefydlu awdurdod i reoli a chyflawni rhwymedïau masnach pan fydd y DU yn cydsynio â Sefydliad Masnach y Byd. Oherwydd nad yw Cymru'n aelod o Sefydliad Masnach y Byd ei hun, ar Lywodraeth y DU mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol, nid Llywodraeth Cymru.</p> <p>Safbwynt Llywodraeth Cymru yw na fyddwn yn disgwyl cymryd rhan yng ngweithgareddau gweithredol yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, gan ei fod yn gorff annibynnol. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod gallu gweithredu fel cyfrannwr mewn unrhyw achos y mae'r Awdurdod yn ymchwilio iddo, ar yr un pryd ag adrannau eraill o Lywodraeth y DU, yn sicrhau bod ein safbwyntiau'n cael eu cyfrannu at y broses ar yr adeg fwyaf priodol, pan fo'r argymhellion yn cael eu hystyried a'u datblygu. Os ymgynghorir â ni ar yr argymhellion pan fyddant yn cael eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn lle ein bod yn rhan o'r broses yng nghamau cynharaf yr ymchwiliad, byddai hyn yn achosi'r risg y gallai Llywodraeth y DU ffurfio barn sefydledig, gyfunol heb ein cyfraniad. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu mai siawns isel iawn fyddai gennym o ddylanwadu ar y</p>

	<p>canlyniad neu o aildechrau'r trafodaethau, pe baem yn dymuno gwneud hynny. Bydd cyfraniad yng nghramau cynharach y broses, ar adeg pan fydd gwahanol fuddiannau cydymgeisiol yn Llywodraeth y DU yn dod i'r amlwg ac yn cael eu datrys, yn fwy buddiol oherwydd bydd yn ein galluogi i gael rhagor o ddylanwad. Mae'r broses hon eisoes yn gweithio'n ymarferol oherwydd mae swyddogion wedi cael nifer o wahoddiadau i gyfrannu at ymchwiliadau gan Gyfarwyddiaeth yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach yn Llywodraeth y DU, sy'n rheoli'r ymchwiliadau yn ystod y cyfnod pontio.</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi sicrhau ymrwymadau anneddfwriaethol gan Lywodraeth y DU, ar 4 Chwefror 2019, ynghylch y ffyrdd y byddwn yn gallu rhyngweithio â'r Awdurdod a chynnal lefel o gyfraniad yn y broses ymchwilio. Cafodd Datganiad Ysgrifenedig, yn darparu rhagor o fanylion am ymrwymadau Llywodraeth y DU, ei gyhoeddi ar 30 Ebrill 2019.</p> <p>Barn Llywodraeth Cymru yw bod yr ymrwymadau hyn, ynghyd â'r wybodaeth fanwl a ddarparwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig am sut bydd Llywodraeth y DU yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn y gweithdrefnau, yn rhoi sicrwydd boddhaol y byddwn yn rhan o'r broses ymchwilio ar yr adeg fwyaf priodol, yn y ffordd fwyaf priodol. Y dystiolaeth hyd yma yw bod yr ymrwymadau'n cael eu gwireddu'n ymarferol.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim</p>
<p>Argymhelliad 9</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio trafodaethau brys â Llywodraeth y DU ynghylch yr ymrwymadau a wnaed o ran gweithrediad yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, yn benodol o ran dyletswydd ar yr Awdurdod i roi cyngor i Weinidogion Cymru, a cheisio newidiadau i'r ymrwymadau y cytunwyd arnynt er mwyn iddynt adlewyrchu'n briodol rôl Llywodraeth Cymru yn rhoi cytundebau masnach ryngwladol ar waith.</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>Gweler yr ymateb a ddarparwyd i Argymhelliad 8, sy'n mynd i'r afael ag Argymhelliad 9 hefyd.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim</p>



The Rt Hon the Lord Fowler, Lord Speaker
House of Lords
London
SW1A 0PW

11 September 2020

Dear Lord Speaker,

Following the completion of consideration by the House of Commons, the Trade Bill 2019-21 is now before the House of Lords. I understand that the second reading will take place on 8 September with further stages yet to be timetabled.

I think it important that peers intending to participate in consideration of the Bill should be aware of the Welsh Government's concerns about some of its provisions.

Let me be clear, first of all, that there is much in the Trade Bill which we would prefer was amended. However, within this letter I have restricted my comments to provisions within the Bill that have been deemed to require legislative consent.

I agree that legislation is required to provide stability and continuity as the UK withdraws from the European Union, but the Bill must work with, not against, the devolution settlement. The purpose of this letter is to make clear that, in my view, the Bill, and in particular clause 2 as currently drafted, needs amendment to ensure it does not undermine that settlement.

Clause 2(1) confers powers on a Minister of the Crown and Ministers from the devolved governments to implement international trade agreements. Clause 2(6) sets out examples of the provision which may be made by regulations, which can include amendments to primary legislation. The UK Government has previously indicated that it is not minded to exercise the clause 2 powers to make amendments to the Government of Wales Act 2006 (GoWA). Indeed, the UK Government has made commitments at the despatch box that it will not normally do so, and we do not envisage a situation when this action would ever be required. Nevertheless, there remains a low, but real risk that UK Ministers could use these powers. We believe that it is in principle problematic to provide Ministers with delegated powers to amend the fundamental devolution statutes without full scrutiny by Parliament.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

We were very disappointed that amendments to require the UK Government to formally engage with the devolved nations on this matter, were rejected in the Commons. We would therefore hope that peers would bring forward amendments to have the effect of preventing the regulation making powers from being exercised by UK Ministers to make amendments to the GoWA (or equivalent legislation in the case of Scotland and Northern Ireland).

I am copying this letter to the Leader of the House; the Shadow Leader; the Convenor of the Crossbench Peers; Lord Grimstone of Boscobel Kt, Minister for Investment, UK Government; Viscount Younger of Leckie, Lord in Waiting (Government Whip), UK Government; Ivan Mckee MSP, Minister for Trade, Investment and Innovation, Scottish Government; and Diane Dodds MLA, Minister for the Economy, Northern Ireland Executive.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Eluned Morgan AS/MS
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh
Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Greg Hands MP
Minister of State for Trade Policy
Department for International Trade
King Charles Street
Whitehall
London
SW1A 2AH
Hands.Correspondence@trade.gov.uk

11 September 2020

Dear Greg,

I am writing to thank you for restating despatch box commitments previously made in July 2018 by one of your predecessors in relation to concurrent powers for Welsh Ministers within the Trade Bill.

However, a recent report published by the Senedd's Legislation, Justice and Constitution Committee on a Welsh Government legislative consent memorandum highlighted that your restatement of despatch box commitments originally made in 2018 did not include an explicit restatement of a commitment made in relation to clause 2(7) powers to extend the sunset period.

It would therefore be helpful if you could ask the Minister responsible for the Trade Bill's passage through the House of Lords to restate the commitment that the UK Government will engage the devolved administrations in the decision-making process in advance of any decision to use the clause 2 powers to extend the sunset period.

Your assistance in this matter would be greatly appreciated.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 265

I am copying this letter to Lord Grimstone of Boscobel Kt, Minister for Investment, and Viscount Younger of Leckie, Lord in Waiting (Government Whip).

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Mick Antoniow AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.wales

16 Medi 2020


Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynglŷn â chraffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r Protocol rhwng Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Senedd Cymru.

Fel yr ydych yn nodi yn eich llythyr, mae'r Protocol a gytunwyd ym mis Hydref 2018 rhwng eich Pwyllgor a Llywodraeth Cymru wedi dod i ben ers 31 Ionawr 2020 yn unol â'r telerau a gytunwyd. Mae'r Protocol wedi gwneud cyfraniad positif i'r gwaith effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Rwy'n cytuno yn sgil y cyfnod pontio a'r disgwyliad y bydd deddfwriaeth bellach yn ymwneud â'r ymadawiad â'r UE, y dylai'r Protocol barhau i fod yn berthnasol, fel y'i drafftwyd yn wreiddiol, i reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, gan ehangu ei delerau i fod yn gymwys i'r rheoliadau perthnasol a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 neu Ddeddf 2018 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020, a hefyd y rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Biliau Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Amgylchedd a Masnach pan fyddant wedi'u deddfu.

O ran gweithredu proses Rheol Sefydlog 30C, rwyf hefyd yn cytuno y gall y Protocol a atgyfodir fod yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru ymrwmo i ddilyn egwyddor proses Rheol Sefydlog 30C pan fydd Gweinidogion Cymru'n rhoi eu cydsyniad ar gyfer y rheoliadau perthnasol a wnaed o dan Ddeddf 2020, Deddf 2018 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020 ac, yn dilyn adolygiad pellach, y Biliau Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Amgylchedd a Masnach pan fyddant wedi'u deddfu. Bydd angen adolygu'r cytundeb hwn, a thrafod a chytuno ar unrhyw ddiwygiadau pellach i'r Protocol yn ôl yr angen. Dylai'r Protocol hwn a ehangwyd fod yn weithredol tan ddiwedd y Pumed Senedd.

Yn gywir



MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

23 Gorffennaf 2020

Annwyl Mark

Craffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd - Protocol rhwng Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Senedd Cymru

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch y **Protocol** y cytunwyd arno ym mis Hydref 2018 rhwng ein Pwyllgor ni a Llywodraeth Cymru. Byddwch yn ymwybodol y cytunwyd ar y Protocol yng nghyd-destun ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a phwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* (sef, 'Deddf 2018').

Rydym yn cydnabod bod y Protocol wedi dod i ben ar 31 Ionawr 2020, a hynny o dan delerau'r Protocol ei hun. Fodd bynnag, o ystyried y cyfnod pontio a'r ffaith ein bod yn disgwyl deddfwriaeth bellach sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE, rydym yn credu y byddai'n werth atgyfodi'r protocol, fel ei fod yn parhau i fod yn berthnasol i reoliadau a gaiff eu gwneud o dan Ddeddf 2018, ac ehangu ei thelerau ar yr un pryd fel y nodir isod.

Mae'r Protocol yn nodi'r cyd-ddealltwriaeth sy'n bodoli rhwng ein Pwyllgor ni a Llywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar reoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau a roddir gan Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2018. Ar yr adeg y cafodd y Protocol ei ddrafftio a'i gytuno, roedd cydnabyddiaeth y byddai angen parhau â'r gwaith o adolygu'r Protocol, yn enwedig o ran y modd y byddai'n cael ei gymhwyso i waith craffu ar reoliadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud o dan Ddeddfau perthnasol eraill sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE (paragraff 18).

Yn ein cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2020, gwnaethom drafod ein blaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref. Rydym yn ymwybodol o'r sylwadau yr ydych chi a'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud hyd yma am y potensial y bydd toreth o is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE yn cael ei wneud cyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Yn anochel, bydd gan y sefyllfa hon oblygiadau o ran llwyth gwaith ein Pwyllgor yn ystod tymor yr hydref, ac rwy'n ysgrifennu ar wahân at y Trefnydd a'r Cwnsler Cyffredinol i ofyn



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

0300 200 6565

am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch faint o is-ddeddfwriaeth o'r fath sy'n debygol o gael ei wneud.

Er y bydd y diweddariad hwnnw o fudd i'n cynlluniau gwaith, rydym yn gwerthfawrogi'r posibilrwydd y bydd y rhaglen ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE yn newid, fel yn achos y gyfran gychwynnol o is-ddeddfwriaeth a wnaed i sicrhau effeithiolrwydd parhaus cyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl y diwrnod ymadael. Felly, hoffem wneud cais yn awr bod y Protocol a atgyfodir yn cael ei ehangu i sicrhau ei fod yn gymwys i reoliadau perthnasol a wneir o dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020* (sef 'Deddf 2020'). At hynny, gofynnwn i chi ystyried a ddylai'r Protocol a atgyfodir fod yn gymwys hefyd yn y dyfodol i reoliadau perthnasol a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol arall sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE, yn enwedig y Biliau ym meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd, amgylchedd a masnach, pan fyddant yn dod i rym.

Yn ogystal â'r mater o ehangu'r modd y caiff y Protocol a atgyfodir ei gymhwyso i ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE, hoffem hefyd godi'r mater o weithredu'r broses sydd ynghlwm wrth Reol Sefydlog 30C.

Fel y gwyddoch, mae Rheol Sefydlog 30C yn gymwys i reoliadau a gaiff eu gwneud o dan Ddeddf 2018 yn unig. Yn ystod ein gwaith craffu ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer pob Bil sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE, rydym wedi cynnal trafodaethau a gwneud argymhellion lle y bo'n briodol, ynghylch sut y dylid hysbysu'r Senedd pan fydd Gweinidogion y DU yn gwneud rheoliadau perthnasol mewn meysydd datganoledig gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Hyd yma, rydym wedi cael ymatebion anghyson gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'n hargymhellion. Er enghraifft, o ran rheoliadau perthnasol y gellir eu gwneud o dan y [Ddeddf] Pysgodfeydd, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig na fyddai'n dilyn egwyddor proses Rheol Sefydlog 30C ond y byddai'n ysgrifennu at ein Pwyllgor. Fodd bynnag, o ran rheoliadau perthnasol y gellir eu gwneud o dan [Ddeddf] yr Amgylchedd, dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhoi gwybod yn ffurfiol i'r Senedd yn unol â phroses Rheol Sefydlog 30C.

Rydym ni, fel erioed, yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar Lywodraeth Cymru, yn enwedig mewn cyfnod o argyfwng iechyd byd-eang. Fodd bynnag, mae'r mater o Weinidogion Cymru yn cydsynio i Lywodraeth arall weithredu ar eu rhan mewn maes datganoledig yn fater cyfansoddiadol o sylwedd, a dylid sicrhau bod pob Aelod o'r Senedd yn ymwybodol ohono yn brydlon. Am y rheswm hwn, rydym wedi argymhell yn ein hadroddiadau y dylid ehangu proses Rheol Sefydlog 30C lle y bu'n briodol i wneud hynny.

Hoffem awgrymu bod y Protocol yn cael ei ddefnyddio fel modd i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gadw at egwyddor Rheol Sefydlog 30C wrth wneud rheoliadau perthnasol o dan Ddeddf 2020 a'r Biliau ym meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd, amgylchedd a masnach, pan fyddant yn dod i rym. Cellid parhau i adolygu hyn, a gellid trafod a chytuno ar unrhyw welliannau pellach i'r Protocol pan fo angen.



Byddai'r dull hwn yn osgoi'r angen i ddiwygio Rheolau Sefydlog y Senedd yn y tymor byr, gan hefyd roi cyfle i fyfyrio ymhellach ar ba mor addas fydd Rheol Sefydlog 30C yn y tymor hir.

Awgrymwn y dylai'r Protocol sy'n cael ei atgyfodi a'i ehangu gael effaith tan ddiwedd y Pumed Senedd. Yna, bydd ein Pwyllgor newydd yn trafod y mater gyda Llywodraeth nesaf Cymru yn y Chweched Senedd.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl ac, yn ddelfrydol, cyn dechrau tymor hydref y Senedd.

Yn gywir,




Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Jeremy Miles AS/MS

**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition**



Mick Antoniw AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SeneddDCC@senedd.cymru

17 Medi 2020

Annwyl Mick,

Cytundeb Rhyngsefydliadol – Cyfarfodydd Gweinidogol ar yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol

Rhoddais ddiweddariad ichi yn ddiweddar am fandad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar gyfer y gwaith sy'n digwydd ar yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, a'u cytundeb i'r gwaith hwnnw hefyd.

Roeddwn wedi sôn eisoes bod gweinidogion Cysylltiadau Rhynglywodraethol wedi cyfarfod i drafod peirianwaith ac osgoi a datrys anghydfodau ar 12 Awst. Trefnwyd cyfarfodydd pellach ar gyfer 8 a 10 Medi. Cyfunwyd y cyfarfodydd hyn ac fe'u cynhaliwyd ar 10 Medi.

Cadeiriais y cyfarfod hwn, ac yn bresennol hefyd roedd Chloe Smith AS, y Gweinidog dros y Cyfansoddiad a Datganoli, Llywodraeth y DU, Jenny Gilruth ASA, y Gweinidog dros Ewrop a Datblygu Rhyngwladol, Llywodraeth yr Alban, a'r Gweinidogion Gordon Lyons ACD a Declan Kearney ACD, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Gan nodi effaith a goblygiadau sylweddol a niweidiol Bil Marchnad fewnol Llywodraeth y DU o ran cysylltiadau rhynglywodraethol, fe wnaethom gytuno serch hynny fod angen bwrw ymlaen â'r gwaith ar yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ar y cyd o fewn y fforwm hwn.

Gwnaethom gynnydd pellach o ran osgoi a datrys anghydfodau, a pheirianwaith, er bod mwy o waith i'w wneud, a gofynnwyd i swyddogion barhau i gydweithio ar y cynigion. Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth maes o law.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 271

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jeremy Miles', with a stylized, cursive script.

Jeremy Miles AS/MS

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon